| | |
|---|---|
| **Rhif:** | **3** |
| **Cais Rhif:** | **C17/0366/17/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **11/04/2017** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Llandwrog** |
| **Ward:** | **Talysarn** |
| **Bwriad:** | **Gosod 1 grid gwartheg** |
| **Lleoliad:** | **Tir yn Y Fron, Caernarfon, Caernarfon, LL54 7BG** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATÁU GYDAG AMODAU |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Bwriad y cais hwn yw gwneud newidiadau i'r briffordd gyhoeddus ar gyrion Pentref Lleol y Fron fel y'i diffinnir gan Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Fe fyddai'r datblygiad yn cynnwys gosod grid gwartheg yn y ffordd ddosbarth 3 sy'n arwain rhwng y Fron a Rhosgadfan, oddeutu 50m i'r gogledd o'r ffin ddatblygu, ynghyd a gwaith cysylltiedig i greu man pasio, giât, ffensys a waliau newydd

1.2 Eglura'r ymgeiswyr mai'r bwriad ydi cau bwlch yn y rhwystrau presennol sydd o amgylch Comin Uwch Gwyrfai er atal defaid a gwartheg rhag crwydro oddi ar y Comin i bentrefi, ffyrdd a thiroedd cyfagos.

1.3 Saif y safle mewn lleoliad cefn gwlad o fewn Ardal Tirwedd Arbennig fel y'i diffinnir gan y CDLl a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle fel yr adnabuwyd gan Cadw a CNC.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

TRA 1 : Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
PCYFF 2 : Meini Prawf Datblygu
PCYFF 3 : Dylunio a siapio lle
AMG 2 : Ardaloedd o dirwedd arbennig
AT 1 : Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig.

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru Fersiwn 9, 2016

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Dim

## 4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref: Safbwynt niwtral – sylwadau gan aelodau :

- Mae'r safle yn rhy agos at y pentref a hefyd yn rhy agos at dro peryglus yn y ffordd.
- Dylid symud y grid tua 5 i 10m yn dilyn arolwg gweledeedd
- Mae lleoliad y giât yn beryglus ar gyfer cerddwyr a dylid ystyried rhoi giât letach ar ochr ogleddol y ffordd.
- Dylid ystyried gosod cwrb yn glir o'r waliau ar yr ochr ddwyreiniol

Uned Trafnidiaeth: Dim gwrthwynebiad

Nid yw'r cais yn cynnwys manylion technegol y grid na'r system draenio a fwriedir ei darparu i arbed y grid rhag llenwi a dŵr, fodd bynnag mae'r rhain yn elfennau sydd angen eu cytuno gyda'r Uned Drafnidiaeth wrth geisio am orchymyn grid gwartheg dan y Ddeddf Priffyrdd.

Uned Llwybrau: Heb eu derbyn

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth (gan gynnwys deiseb) yn gwrthwynebu'r datblygiad ar y seiliau cynllunio isod:

- Pryderon ynghylch llygredd sŵn yn enwedig gan fod y safle mewn pant a fyddai'n chwyddo'r sŵn a gynhyrchir
- Pryderon ynghylch cryndod tir yn deillio o'r grid.
- Bod tystiolaeth yn dangos y gall gridiau gwartheg gael effaith niweidiol ar y rheini sy'n byw o fewn 100m i'r lleoliad (mae 9 tŷ o fewn 100m i'r safle a 3 arall o fewn 125m)
- Mae gridiau gwartheg yn niweidiol i lonyddwch cefn gwlad
- Bod y ffordd hon yn un brysur ac yn cael ei defnyddio gan lawer o gerbydau trymion megis bysys, loriau llechi a cherbydau amaethyddol
- Fe fyddai'r grid yn creu perygl ar y briffordd yn enwedig oherwydd ei agosatrwydd i gyffordd a thro yn y ffordd
- Fe fydd y grid yn rhwystro mynediad i gerddwyr, seiclwyr a marchogion ceffylau a hefyd yn rhwystr i'r henoed a'r anabl
- Fe fyddai'r grid yn berygl arbennig i seiclwyr yn enwedig pan fydd cerbydau eraill yn ei ddefnyddio'r un pryd
- Mae'r safle'n lleoliad sy'n dueddol o ddioddef o lifogydd
- Bydd y ffensys, waliau a giât yn dal eira yn y gaeaf gan gau mynediad i'r pentref
- Bydd y ffensys, waliau a giât yn atal mynediad

agored i'r tir agored o fewn ffurf adeiledig y pentref
- Bydd y ffensys, waliau a giat yn niweidiol i fwynderau gweledol yr ardal

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oeddynt yn wrthwynebiadau cynllunio dilys a oedd yn cynnwys:

- Nid yw'r porwyr yn byw yn y pentref ac felly nid ydynt yn gwerthfawrogi pryderon y trigolion
- Bod yr ymgeiswyr yn debygol o ddefnyddio hen gridiau yn debyg i rai sydd wedi eu gosod mewn mannau eraill ac sydd eisoes yn creu llygredd sŵn
- Nid oes enghreifftiau o'r ffensys, waliau neu giatiau wedi eu dangos gan yr ymgeiswyr
- Pryder am wariant arian cyhoeddus i orfod delio hefo cynnal a chadw a phroblemau yn y dyfodol megis llifogydd
- Nid oes tystiolaeth o ble mae'r anifeiliaid sy'n crwydro i mewn i'r pentref yn dod ac y byddai'r datblygiad yn datrus y broblem
- Nid yw'r porwyr yn fodlon ymgymryd ag arolwg diduedd ar sut i reoli stoc ar y Comin
- Gwrthwynebu bod llesiant ac iechyd trigolion yn cael eu peryglu oherwydd rheolaeth stoc annigonol gan borwyr.
- Bod y bwriad yn groes i bolisïau Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd
- Bydd angen i'r cyngor cymuned dorri gwair yn y pentref sydd ar hyn o bryd yn cael ei bori gan ddefaid.
- Bod bwriad dwysau defnydd pori'r Comin ac fe fyddai hynny'n niweidiol i fwynderau trigolion
- Bod 4 grid eisoes o fewn 1/2 milltir i'r pentref gan greu effaith o gymuned adwyog ("gated community")
- Mae'r datblygiad yn y man anghywir ac mae llefydd llai ymwthiol a mwy effeithiol i'w osod
- Bod anghysondebau yn Natganiad Cynllunio'r ymgeiswyr a'i fod yn gamarweiniol ynghylch y broses ymgynghori ymlaen llaw
- Bod diffygion yn y broses ymgynghori cyn y cais
- Nid oes gwaith cynnal a chadw digonol yn digwydd i'r gridiau presennol sydd yn yr ardal a bydd y grid newydd yn creu baich ychwanegol ar y gyllideb briffyrdd

- Bydd y datblygiad yn niweidiol i ffyniant economaidd y pentref
- Bydd gostyngiad mewn prisiau tai yn lleol
- Bod adroddiad Ombwdsman wedi atal gosod gridiau gwartheg yn y gorffennol
- Na hysbysebwyd y cais cynllunio mewn modd cywir
- Bod y tir yn destun Gweithred Gyfreithiol
- Bod y manylion lleoliad a roddir yn y cais yn anghywir

Bu hefyd gohebiaeth yn cefnogi'r cais ar sail :

- Fe fyddai'r cynllun yn sicrhau bod anifeiliaid pori yn aros ar y mynydd
- Mae'r sefyllfa bresennol gyda defaid a gwartheg yn crwydro'r pentref yn creu perygl a niwsans i drigolion.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLL) yw'r 'Cynllun Datblygu' mabwysiedig. Fodd bynnag mae'n bwysig cofio, yn yr achos hwn, fod angen caniatâd trwy orchymyn dan Adran 82 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980 i osod gridiau gwartheg ar y briffordd. Mae hyn yn broses tu hwnt i'r drefn cynllunio ac fe fyddai hyn yn delio gyda manylion gweithredu a chynnal y datblygiad.

5.2 Y prif bolisi cynllunio sy'n ymwneud â newidiadau i'r rhwydwaith cludiant yw Polisi TRA 1 o'r CDLl. Mae'r polisi hwn yn caniatáu gwelliannau i isadeiledd ffyrdd presennol os gellir cwrdd gyda chyfres o feini prawf gan gynnwys bod y safle a ddewisir yn cael yr ardrawiad lleiaf posib ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, y dirwedd ac eiddo. O safbwynt y datblygiad hwn, mae manteision amlwg i borwyr, trigolion a defnyddwyr y briffordd yn debygol o ddeillio o gamau sy'n atal anifeiliaid sy'n pori rhag crwydro trwy pentrefi ac ar hyd ffyrdd cyhoeddus lleol ac felly fe ystyrir hwn yn gais am "welliant" i'r isadeiledd priffyrdd ac felly fe gefnogir egwyddor y datblygiad dan bolisi TRA 1.

**Effaith weledol**

5.3 Oherwydd maint eithaf bychan y datblygiad hwn, ynghyd a'i leoliad mewn ardal sydd yn amaethyddol ei naws, ni ystyrir y buasai'r grid ei hun na'r ffensys, giât a waliau a fyddai o'i amgylch yn ymddangos fel nodweddion anghydnaws yn y dirwedd. Yn wir mae'r rhain yn strwythurau disgwyliedig mewn mannau gwledig o'r fath. O'r herwydd fe ystyrir bod y cynnig yn gyson gyda gofynion polisi TRA 1 sy'n ymwneud ag amddiffyn y dirwedd a hefyd gyda Pholisïau PCYFF 2 & PCYFF 3 fel y maent yn ceisio amddiffyn mwynderau gweledol. Yn yr un modd ni ystyrir bod effaith weledol y datblygiad yn debygol o fod yn niweidiol i'r tirweddau dynodedig ac felly mae'r cynnig yn dderbyniol dan bolisïau AMG 2 ac AT 1 y CDLl .

**Mwynderau preifat**

5.4 O safbwynt yr effaith posibl ar fwynderau eiddo lleol o safbwynt sŵn ac ymyrraeth, mae'r tŷ preswyl agosaf, sef Tŷ Eiddew, oddeutu 45m o safle'r grid gyda sawl eiddo preswyl arall o fewn 100m. Fe fyddai'n ofynnol i unrhyw grid gwartheg a'i gosodir

dan orchymyn y Ddeddf Priffyrdd gwrdd gyda'r safonau diweddaraf a'u pennir gan BS 4008 / 2006, sydd eu hunain yn cynnwys mesurau lliniaru sŵn. O ymgymryd â'r gwaith i'r safonau hyn, yn enwedig wrth ystyried bod cyflymder y drafnidiaeth yn eithaf isel oherwydd agosatrwydd y safle at gyffordd "T" a'r troadau gerllaw, ni chredir y byddai'r lefelau sŵn a ddeilliai o'r grid yn debygol o fod yn arwyddocaol wahanol i'r hyn a gynhyrchir gan drafnidiaeth arferol o safbwynt ei effaith mwynderol. Fe ystyrir felly bod y cynnig yn cwrdd gyda gofynion Polisi TRA 1 fel y mae'n ymwneud ag amddiffyn eiddo lleol a hefyd PCYFF 2 fel y mae'n ymwneud ag amddiffyn iechyd, diogelwch a mwynderau trigolion lleol.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.5 Nid oes gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad o safbwynt diogelwch y briffordd er ei bod yn pwysleisio ei fod yn angenrheidiol derbyn caniatâd ychwanegol trwy orchymyn dan Adran 82 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980. Fe gredir felly bod y cynnig yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi TRA4 o'r CDLL.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.6 Derbyniwyd sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori yn nodi sawl gwrthwynebiad i'r cynllun ar seiliau nad ydynt yn faterion cynllunio materol ac fe ystyrir fod y drafodaeth uchod yn delio gyda'r materion cynllunio perthnasol ar gyfer gwneud penderfyniad ar y cais.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol a'r holl sylwadau a dderbyniwyd, fe gredir fod y bwriad i osod grid gwartheg yn y lleoliad hwn yn dderbyniol dan ofynion y polisïau perthnasol y nodir uchod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu - amodau

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Cytuno ar union leoliad, deunyddiau a dyluniad y ffensys / waliau / giât

Nodiadau
Angen caniatâd dan y Ddeddf Briffyrdd i osod grid gwartheg
Angen caniatâd dan y Ddeddf Briffyrdd i ymgymryd â gwaith o fewn y briffordd